

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD
11 RHAGFYR 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 11 Rhagfyr 2018.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ray Hughes (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, Cindy Hinds, Dave Hughes, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas.

DIRPRWYON: Y Cynghorwyr Mike Peers (dros Veronica Gay) a Richard Jones (dros Colin Legg)

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; y Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad; Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Rhaglen Gwastraff a Gwasanaethau Ategol; Rheolwr Rhaglen a Swyddog Ailgylchu a Chydymffurfiaeth.

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Haydn Bateman

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Christine Jones (Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Ian Dunbar a'r Cynghorydd Ted Palmer, Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Amgylchedd a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democraidd.

35. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd dim.

36. DRAFFT NODYN CYNGOR DATBLYGWR TAI AMFEDDIANNAETH (HMO) DROS DRO

Dywedodd yr Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wrth Aelodau bod angen i geisiadau datblygu Tai Amfeddiannaeth fynd drwy'r Pwyllgor Cynllunio bellach, ar ôl newidiadau i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y math hwn o eiddo, sydd wedi arwain at gwynion gan drigolion lleol a Chynghorwyr. Yn y gorffennol, mewn trefi prifysgol fyddai eiddo fel hyn i'w canfod ond oherwydd y diffyg mewn tai, mae mwy yn cael eu datblygu erbyn hyn. Amlinellodd beth fyddai'r Nodyn Cyngor Datblygwr yn ei olygu gan nad yw'r polisiâu cyfredol yn ddigonol yn hyn o beth. Roedd y Pwyllgor Cynllunio wedi ei chael hi'n anodd delio gyda'r mathau hyn o Geisiadau Cynllunio gan nad oedd polisi penodol yn ymwneud â Thai Amfeddiannaeth o dan y Cynllun Datblygu Trefol. Roedd y polisi yn cael ei ddatblygu i'w gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ac roedd yr Hysbysiad Cyngor Datblygwyr hwn yn rhoi cyngor i ddatblygwyr yn y cyfamser. Roedd angen cymeradwyaeth ar y Nodyn Cyngor cyn iddo gael ei rhyddhau i'w ymgynghori arno a'i fabwysiadu gan y Cabinet a gofynnwyd i'r Pwyllgor hwn am ei sylwadau.

Dyweddod y Prif Swyddog (Cynllunio Amgylchedd a'r Economi) bod y Grŵp Strategol Cynllunio wedi eu hymgyngori ar hyn a bod y Nodyn Cyngor Datblygwyr Interim drafft wedi ei atodi at yr adroddiad fel Atodiad 1. Unwaith byddai'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnwys byddai'n cael ei gyhoeddi ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus. Wedi'r ymgynghoriad byddai'n cael ei fabwysiadu gan y Cabinet ac yna byddai Gweithdy i'r holl Aelodau'n cael ei gynnal.

Gofynnodd y Cynghorydd Joe Johnson am eglurder am y diffiniad o Dŷ Amlfeddiannaeth a gofynnodd a yw'n golygu 3 o bobl nad oeddynt yn perthyn i'r un teulu. Cadarnhaodd y Prif Swyddog fod hynny yn wir.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Owen Thomas at y (Cynllun Datblygu Trefol) gan nodi bod modd rhoi polisiau blaenorol yn eu lle cyn ei fabwysiadu, a gofynnodd a fyddai modd ffurfioli'r polisi yn yr un modd. Wrth ymateb dywedodd y Prif Swyddog bod y Cynllun Datblygu Trefol yn wahanol i'r Cynllun Datblygu Lleol gan fod y cynllun eisoes wedi ei fabwysiadu.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Mike Peers bod y Grŵp Strategaeth Cynllunio wedi gwneud sylwadau ar hyn. Roedd yr adroddiad yn nodi bod y Cabinet wedi derbyn yr adroddiad ar 9 Hydref ond ar yr agenda ar gyfer y Cabinet cafodd ei gyflwyno ar 23 Hydref ac roedd am gael eglurder. Roedd yn teimlo y dylai'r Pwyllgor fod wedi gweld y ddogfen ddrafft cyn iddi gael ei hystyried yn y Cabinet. Yna cyfeiriodd at bwynt 4.12 Golygfa a Phreifatrwydd "Mae'r ACLI yn ystyried bod golygfa resymol yn golygu isafswm pellter o 12 metr" ac roedd yn teimlo y dylid ei newid i "ceisio am isafswm pellter o 12 metr". O safbwynt 4.15, awgrymodd y Cynghorydd Peers y dylid cynnwys isafswm pellteroedd wrth gyfeirio at ffenestri islawr. Ychwanegodd bod y cynlluniau a'r diagramau yn glir ond dywedodd bod pryderon wedi eu mynegi yn y Grŵp Strategaeth Cynllunio ynghylch allanfeydd tân ac awgrymodd gynnwys cyfeiriad at Reoli Adeiladu, a beth maen nhw'n gyfrifol amdano.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Cynllunio Amgylchedd a'r Economi) mai dyddiad cyfarfod y Cabinet oedd 23 Hydref. O safbwynt ceisio barn y Pwyllgor dywedodd nad oedd yr ymgynghori ffurfiol wedi cychwyn ac nad hon oedd y ddogfen derfynol. O safbwynt 4.12 roedd yn fodlon newid hyn y i "ceisio am isafswm pellter o 12 metr". O safbwynt pryderon y Grŵp Strategaeth Cynllunio am ddiogelwch tân, dywedodd bod llawer o bartneriaid yn ymwneud â hyn, fel y Gwasanaeth Tân, Iechyd Yr Amgylchedd ac ati. Ar ddiwedd y nodyn gellid cynnwys rhestr o wybodaeth gyswilt a chyfrifoldebau a gellid trafod hyn yng Ngweithdy'r Aelodau. Cytunodd y Prif Swyddog i fynd a'r pwyntiau hyn ymlaen.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sean Bibby at y strydoedd teras o fewn ei ward gan ddweud bod hyn yn bryder gwirioneddol i drigolion ac nad yw rhai Tai Amlfeddiannaeth yn mynd drwy brosesau cynllunio. Roedd gwastraff a thipio anghyfreithlon yn broblem yn ogystal â pharcio ar strydoedd cul lle gallai 4 neu 5 o bobl fod yn byw mewn un tŷ, a thrigolion o ganlyniad i hynny heb le i barcio. Hefyd roedd problemau gyda datblygwyr yn prynu llawer o'r eiddo yma, sy'n golygu nad yw pobl sy'n prynu am y tro cyntaf yn gallu prynu eiddo. Roedd yn bryderus i'r cymunedau gan mai trigolion byrhoedlog oedd y rhain yn hytrach na theuluoedd. Wrth ymateb cytunodd Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad fod problemau gwastraff yn broblem o safbwynt Tai Amlfeddiannaeth. Roedd cyllid yn dod ar gael gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag ardaloedd fel strydoedd

teras ac unwaith y byddai'r trefniadau hyn yn eu lle byddai'n adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor. Sicrhaodd y Prif Swyddog (Cynllunio Amgylchedd ac Economi) Aelodau fod yr holl faterion hyn yn rhan o Nodyn Cyngor Datblygwyr ond yn anffodus dydy'r Cyngor ddim yn gallu rheoli pwy sydd yn byw yn yr eiddo hyn, na'u hymddygiad.

Gofynnodd y Cynghorydd David Evans a fyddai angen gwneud cais am Ganiatâd Cynllunio Ôl-weithredol pe darganfyddir bod eiddo yn Dŷ Amlfeddiannaeth anghyfreithiol. Gofynnodd a yw trigolion yn cael eu hannog i adrodd am unrhyw amheuan ac awgrymodd ychwanegu atodiad arall yn darparu cyngor i drigolion ar sut i adrodd am achosion? Wrth ymateb cytunodd y Prif Swyddog fod hwn yn bwynt teg a gellid ychwanegu dolen at y Tîm Gorfodi i drigolion oedd am adrodd am eu pryderon. O safbwynt Caniatâd Cynllunio Ôl-weithredol, dywedodd nad oedd hyn bob amser yn cael ei ddyfarnu ac mewn rhai achosion byddent yn cael eu symud yn syth ymlaen at y Tîm Gorfodi.

Roedd y Cynghorydd Paul Shotton yn falch o weld y Cabinet yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn a bod y Grŵp Strategaeth Cynllunio eisoes wedi gwneud sylwadau ar y mater. Ychwanegodd bod yr effaith ar drigolion yn sylweddol a bod y nifer o broblemau a nodwyd yn ardal Cei Connah yn broblem wirioneddol.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet (Strydwedd a Chludiant) at sylwadau'r Cynghorydd Evans gan ddweud hyd at yn ddiweddar doedd dim rheoliadau yn eu lle a bod rhai o'r eiddo y cyfeirir atynt yn hanesyddol ond rŵan roedd yn rhaid dyfarnu Caniatâd Cynllunio.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo penderfyniad y Cabinet i gymeradwyo cynnwys y Nodyn Cyngor Datblygwyr Tai Amlfeddiannaeth Interim Drafft a atodwyd at yr adroddiad hwn, a'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyfle cyntaf posibl.

37. DIWEDDARIAD 6 MIS TALIADAU PARCIO CEIR

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) Chris Taylor a Ruth Cartwright oedd wedi bod yn gweithio ar y rhaglenni ar gyfer parcio ceir.

Dywedodd y Prif Swyddog bod y Strategaeth wedi ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mawrth 2017, gyda Strategaeth a Ffioedd newydd yn cael eu cyflwyno ym mis Mai 2018, ac mai adolygiad chwe mis ar ôl ei gyflwyno oedd yr adroddiad hwn.

Soniodd wrth Aelodau am y ddau gyfyngiad yn 1.09 a'r newidiadau o fewn yr adroddiad yn 1.10. Rhestrwyd y ceisiadau am newidiadau gan Gynghorau Tref a Chymuned yn 1.10 ac ym mhwynt 1.11 oedd yr awgrymiadau nad oedd modd eu cyflwyno.

Dangoswyd cais Cyngor Tref Bwcle am gyfnod estynedig o barcio am ddim pe byddai cyngor y dref yn darparu'r costau yn 1.11 (pwynt 9). Yn anffodus doedd hwn ddim yn cyrraedd y cyfyngiadau ond cytunwyd dod a hyn i'r pwyllgor er mwyn iddynt ystyried effaith yr argymhelliad, a allai olygu dim gorfodi, a

mynediad am ddim i barcio. Gallai hyn olygu bod meysydd parcio yn cael eu defnyddio gan weithwyr siopau a pherchnogion busnes gan adael ond ychydig o leoedd parcio i siopwyr ac ymwelwyr.

Rhestrwyd y Strategaeth a Rhagolygon Incwm yn Atodiad 1, gydag awgrymiadau am newidiadau i'r Strategaeth wedi eu rhestru yn Atodiad 2 a chanllawiau i gynorthwyo Cynghorau Tref A Chymuned yn Atodiad 4. Byddai unrhyw sylwadau a wnaed ar yr adroddiad yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Ionawr.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y daflen oedd wedi ei chylchredeg yn y cyfarfod gan Gyngor Tref Bwcle ac awgrymodd bod Aelodau yn cael amser i ddarllen y daflen, cyn parhau â'r cyfarfod. Cadarnhawyd mai dim ond y diwrnod cynt oedd Swyddogion wedi derbyn y daflen, a bod llawer o wybodaeth yn cael ei holi amdani yn y daflen oedd i'w chwblhau gan y Swyddogion cyn y cyfarfod.

Gohirio

Gofynnodd y Cynghorydd Joe Johnson a oedd yn bosib cael dau le parcio penodedig i'r Heddlu yn Nhreffynnon a chytunodd yr Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad i ymchwilio i'r cais hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Vicky Perfect bod ffioedd parcio yn gweithio yn dda yn Y Fflint ac wedi gwella lleoedd parcio ger y dref.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at y wybodaeth am incwm oedd yn yr adroddiad ac roedd o'r farn y dylai'r Strategaeth Parcio gael ei theilwra i bob ardal benodol. Cyfeiriodd at adroddiad yr MRUK (Asesu Effaith Ffioedd Parcio Ceir ar Nifer Yr Ymwelwyr Â Chanol Tref) ar gyfer LIC a chyfeiriodd at yr argymhellion o fewn yr adroddiad oedd yn pwysleisio'r angen i awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau parcio sy'n cymryd i ystyriaeth awgrymiadau lleol o safbwynt cynlluniau canol trefi a chynigion manwerthu. Ychwanegodd y byddai'r cynigion a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar NNDR hefyd yn helpu'r awdurdodau lleol i wneud eu rhan. Aeth ymlaen drwy ddweud nad oedd ffioedd parcio ceir yn cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol trefi, yn enwedig pan oedd meysydd parcio Brychtyn am ddim a phan oedd mwy o ddewis yn Yr Wyddgrug. Roedd o'r farn y dylid gadael i drefi lleol benderfynu, yn hytrach nac awdurdodau lleol. Dywedodd y Cynghorydd Jones y dylid gwaredu'r ail gyfyngiad yn 1.09 er mwyn gadael i'n trefi dyfu. Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Jones, dywedodd yr Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad bod adroddiad Llywodraeth Cymru yn rhywbeth newydd ond bod yn rhaid dal i dalu costau cudd fel cyfraddau a chostau goleuo meysydd parcio. Dywedodd bod nifer ymwelwyr eisoes wedi cwmpo cyn sefydlu'r Strategaeth a chyfeiriodd at y gwelliannau yn Nhreffynnon. Dywedodd bod cydweithio yn allweddol ar gyfer hyn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd David Evans ar gostau cynnal meysydd parcio, cytunodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) i ail gylchredeg y wybodaeth costau adfer llawn i Aelodau, ond ychwanegodd bod y costau cynnal a chadw sefydlog yn gyllideb o oddeutu £40,000 bob blwyddyn i gynnal a chadw pob maes parcio ond bod cyfraddau NNDR yn sylweddol uwch na hyn. Ynglŷn â staff yn symud i Ewlo, byddai'n rhaid iddynt gael cerdyn parcio ac ni fyddai hyn yn golygu colli incwm. Aeth ymlaen drwy ddweud y byddai'r

cynigion i osod peiriannau talu ac arddangos ar yr haenau uchaf yn creu mwy o le i ymwelwyr yn Neuadd y Sir, Llwynegrin a Theatr Clwyd.

Dywedodd y Cynghorydd Chris Dolphin bod angen mwy o fuddsoddiad mewn meysydd parcio yn enwedig trwsio tyllau yn y tarmac yn y meysydd parcio. Roedd yn cefnogi'r cais am lefydd parcio penodedig i'r Heddlu ac awgrymodd bod dau fae troli y gellid eu troi'n llefydd parcio penodedig yn Nhreffynnon. Cyfeiriodd at ymweliad diweddar â'r Fflint lle mae llawer o barcio am ddim ar hyn o bryd, ond roedd maes parcio'r Ganolfan Hamdden yn wag. Atebodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) drwy ddweud y dylai'r cydlynnydd ardal leol fod wedi adrodd am y tyllau yn y tarmac ac y byddai'n ymchwilio pam na wnaethpwyd hynny. O safbwynt meysydd parcio Fflint dywedodd bod nifer o feysydd parcio eraill, rhai ohonynt yn breifat ac eraill yn ddarostyngedig i geisiadau cynllunio ac a fyddai'n diflannu.

Cytunodd y Cynghorydd Mike Peers gyda'r Cynghorydd Jones a gofynnodd am ddileu'r ail gyfyngiad ar dudalen 29 a chyfeiriodd at waith sy'n cael ei wneud ym Mwcle i gynyddu'r nifer o ymwelwyr. Roedd Bwcle wedi cynnig talu £46,000 a fyddai wedi bod yn ddigon ar gyfer colli'r incwm ond ni chafodd hyn ei dderbyn oherwydd yr ail gyfyngiad. Cyfeiriodd at y ffioedd newydd yn Yr Wyddgrug oedd wedi eu newid cyn yr adolygiad 6 mis gan ychwanegu nad oedd yr holl drefi yn cael eu trin yr un fath. Cyfeiriodd at 1.08 yn yr adroddiad a'r colledion o £46,000 gan ddweud nad oedd y tocynnau cyfradd uwch wedi bod mor llwyddiannus â'r tocynnau 30 ceiniog yr awr, ac amlygwyd hyn yn Craffu fis Ionawr fel problem bosibl. O safbwynt 1.10 codi ffioedd am leoedd anabl, dywedodd na ellid cytuno ar hyn. Gyda'r gostyngiad mewn refeniw ar gyfer meysydd parcio, y cynnydd mewn problemau parcio ar y stryd a'r colledion refeniw beth a gynnigir i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Wrth sôn am ffioedd parcio ceir dywedodd y Cynghorydd Cindy Hinds, pan nad ydych yn gyrru ac yn defnyddio cludiant cyhoeddus neu dacsis fod hyn yn llawer drytach. Mewn ymateb dywedodd yr Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad nad oedd y gwasanaeth parcio ceir wedi bodloni targedau'r gyllideb eleni. Ychwanegodd bod angen strategaeth bys er mwyn sicrhau bod bysiau yn mynd i ganol y trefi.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin at y Gorchymyn Dros Dro yn Nhreffynnon a ddaeth i ben fis Rhagfyr a gofynnodd sut mae Treffynnon yn bwriadu cynnal parcio am ddim.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Owen Thomas at yr elw a wnaed yn Yr Wyddgrug a gofynnodd beth oedd yn cael ei fuddsoddi yn ôl i'r meysydd parcio. Awgrymodd bod dyddiau Mercher a Sadwrn yn broblem yn Yr Wyddgrug gan fod y dref yn llawn a bod problemau gyda pharcio ar y stryd yn enwedig ar Stryd Wrecsam. Pwysleisiodd fod Yr Wyddgrug yn llwyddiannus a bod angen buddsoddi mwy mewn meysydd parcio.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sean Bibby at 1.11.3 yn yr adroddiad gan ei fod yn awgrymu byddai costau uwch ar Alexander Street a oedd yn ymddangos yn deg ond bod yr effaith ar drigolion ger y maes parcio yn broblem, gyda cheir yn parcio mewn strydoedd ochr drwy'r dydd, a thrigolion felly'n methu parcio. Roedd Gorsaf Y Fflint mewn ardal fasnachol ac nid oedd yn wynebu'r un problemau â

Shotton. Dylid ystyried y materion yma sydd wedi eu hadrodd amdanynt nifer o weithiau dros y blynyddoedd gan drigolion ger yr orsaf cyn i'r ffi uwch gael ei ystyried. Awgrymodd y byddai tocynnau parcio ceir i drigolion yn datrys hyn. Aeth ymlaen i ddweud bod problemau hefyd gyda pharcio ar gyffyrdd ac roedd yn deall bod y Tîm Gorfodi wedi archwilio'r ardal ond eu bod yn dîm bach, roedd pobl yn parcio yn unrhyw le yn hytrach na thalu am barcio.

Cynhyrchodd y Cynghorydd Richard Jones graff oedd yn amlygu'r uchafbwyntiau ym mis Rhagfyr pan oedd y Cyngor Tref wedi talu am barcio am ddim, a roddodd gyfle i gwsmeriaid ymlacio a siopa mwy gan nad oeddynt yn poeni am barcio. Darllenodd bwynt rhif 2 yn 1.11 a dywedodd mai hyn oedd y cyfaddefiad bod parcio am ddim yn fanteisiol ac ni allai ddeall pam bod y Cyngor Tref yn cael eu gwahardd rhag talu tuag at barcio am ddim a chynnwys y Cynghorau Tref yn y penderfyniadau sy'n effeithio eu trefi. Anogodd y Cyngor i ddileu natur ragysgrifiadol y Strategaeth Parcio er mwyn defnyddio dull gweithredu wedi ei deilwra ar gyfer yr ardaloedd lleol. Yna cyfeiriodd at y Tîm Gorfodi a'r costau oedd dros £110,000, gyda'r un fath ar gyfer NDDR a dywedodd bod Yr Wyddgrug yn gwneud elw ond nad yw rhai trefi yn gwneud digon o incwm i dalu'r costau hyn. Ychwanegodd pe byddai cynghorau tref yn cael eu caniatáu i dalu tuag at barcio am ddim y byddai hynny yn cymryd peth o'r pwysau oddi ar yr Awdurdod Lleol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd bod ffioedd parcio ceir wedi bodoli yn Yr Wyddgrug ers dros 40 mlynedd ond nad oedd y fath beth a pharcio am ddim. Er mwyn talu costau'r byddai'n rhaid codi'r praeseptau ac yna'r Dreth Cyngor, oedd eisoes yn cynyddu oherwydd y gofynion statudol. Dim ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf y cyflwynwyd ffioedd parcio ac roedd Bwcle a Threffynnon eisoes yn ei chael hi'n anodd. Cytunodd fod siopwyr yn talu mwy yn Yr Wyddgrug ond roedd mwy o draffig yno, oedd yn effeithio ar y meysydd parcio. Dywedodd hefyd nad oedd parcio am ddim ym Mrychtyn, roedd yn cael ei dalu yn y nwyddau a brynwyd. Roedd caledi ariannol wedi codi'r pwysau ar yr Awdurdod.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton bod nifer o broblemau i'w canfod yma. Cyfeiriodd at gollir diffyg adferiad a'r oedi o ran gweithredu mewn meysydd parcio yn Y Fflint a gobeithio byddai'r adferiad yn cael ei ddangos yn 2019/20. Cytunodd bod Canol Trefi yn chael hi'n anodd ond bu i lawer o unedau manwerthu mawr gau lawr, oedd wedi effeithio ar nifer ymwelwyr â chanol trefi. Cyfeiriodd at waith y Prince's Trust o ran datblygu canol trefi a dylid edrych ar hyn a dylid ei roi ar gynllun gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter. Mewn ymateb i bwynt y Cynghorydd Shotton eglurodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) mai diffyg oedd colli'r incwm yn hytrach na cholled, ac y byddai'n gwella yn y dyfodol. O ran cais y Cynghorydd Johnson byddai'r Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) yn siarad gyda'r Heddlu er mwyn gwneud trefniadau ar gyfer parcio penodedig.

O ran y broblem dadleoli, eglurodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) na ellid rhoi llinellau melyn dwbl heb reswm dilys ond os oedd pobl yn parcio yn anniogel gallai gorchmynion traffig fynd i'r afael â hyn. O ran maes parcio Gorsaf Shotton, byddai'r Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) yn siarad gyda'r Cynghorydd Bibby y tu allan i'r cyfarfod er mwyn datrys hyn. Aeth ymlaen i ddweud o safbwynt meysydd parcio'r Wyddgrug ei fod wedi gweithio gyda'r

cyngor tref i geisio gwella'r cynnig parcio a chytunodd fod angen i'r Tîm Gorfodi gael presenoldeb cryfach, fodd bynnag dim ond tîm bach ydynt sydd yn gweithio ar benwythnosau a diwrnodau prysur er mwyn delio gyda phroblemau. Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) wedyn at Dreffynnon a soniodd am y gwaith caled oedd yn cael ei wneud i geisio gwella'r cynnig i'r dref a chyfeiriodd at y ffaith bod cais am grant cludiant wedi bod yn aflwyddiannus, yn anffodus, ond roedd opsiynau eraill yn cael eu hystyried ac roedd pwysau yn dal i gael ei roi ar Lywodraeth Cymru ar gyfer arian am gynllun gwerth chweil. Amlinellodd y trefniadau pontio oedd yn cael eu cynnig.

Mewn ymateb i'r cwestiwn ar Orfodi Parcio, dywedodd y Prif Swyddog nad oedd y wybodaeth ganddo wrth law ond y byddai'n ei gylchredeg i Aelodau ar ôl y cyfarfod. O safbwynt sylwadau'r Cynghorwyr Peers a Jones am argymhell dileu Cyfyngiad 2 gyda'r Strategaeth, dywedodd y Prif Swyddog mai ei rôl ef oedd cyflwyno'r ffeithiau ac i Aelodau'r Pwyllgor wneud argymhellion ac i'r Cabinet wneud penderfyniad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at y llythyr oedd yn nodi y byddai'r Prif Swyddog yn argymhell yr adolygiad chwe mis a dileu cyfyngiad 2. Yna cyfeiriodd at 1.10 a threialu taliadau di gyswllt a gofynnodd beth oedd y cynigion neu'r costau ar gyfer hyn. Ymatebodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) gan ddweud nad oedd geiriad y llythyr o reidrwydd yn hollol gywir. O safbwynt y taliadau digyswllt nid oedd y rhain am ddim a byddai cost i ailosod y peiriannau. Byddai mwy o fanylion yn cael eu darparu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Dolphin at gais Stryd Fawr Treffynnon i Lywodraeth Cymru, a fu'n aflwyddiannus, a gofynnodd pam - gan bod Gweinidog yr Amgylchedd a'r Ysgrifennydd Busnes o Sir y Fflint. Dywedodd Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad ei bod wedi ysgrifennu at Ken Skates. Roedd wedi ymateb i ddweud nad oedd yn rhan o'r tîm asesu ond y byddai'n darparu gwybodaeth bellach ac roedd yn cymryd yn ganiataol nad oedd Treffynnon wedi bodloni'r meini prawf. Gofynnodd hithau am adborth fel y gallai'r cais gael ei ail ysgrifennu i fodloni'r meini prawf. Cyfeiriodd wedyn at gais Llangollen am ardaloedd i gerddwyr, fu'n llwyddiannus, oedd yn cynnwys ceisiadau teithio llesol. Dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) bod llawer o waith ac ymdrech wedi mynd i'r cynnig hwnnw ond bod llawer gormod o geisiadau wedi eu gwneud nag oedd y cynllun yn gallu mynd i'r afael a nhw.

Cynigiodd y Cynghorydd Peers y cynnig 1.09 ar dudalen 29 gyda dileu'r ail faen prawf "Bydd unrhyw gais yn bodloni egwyddorion strategaeth meysydd parcio'r cyngor ac yn hyrwyddo rheolaeth y rhwydwaith parcio ceir er mwyn darparu lleoedd ac felly mynediad at ganol trefi." Pan gafwyd pleidlais, collwyd y bleidlais hon

Gofynnodd y Cynghorydd Bibby am 1.10 pwynt 3, na ddylid cael cynnydd yn y ffi hyd nes byddai parcio stryd wedi cael ei ystyried. Pan gafwyd pleidlais, collwyd y bleidlais hon

Gofynnodd y Cadeirydd wedyn i'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion fel yr amlinellwyd yn y adroddiad, a gafwyd eu cynnig a'u heilio. Pan gafwyd pleidlais defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i gefnogi'r argymhellion a gynigwyd.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys adolygiad 6 mis y drefn ffioedd meysydd parcio newydd a gyflwynwyd ym mis Mai 2018; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn argymhell i'r Cabinet gymeradwyo'r newidiadau cysylltiedig i'r trefniadau ffioedd, fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, yr ystyrir eu bod o fewn ffiniau a chyfyngiadau'r strategaeth yn gyffredinol.

38. ADOLYGIAD O GOSTAU GWASTRAFF GARDD YN SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) y Swyddog Ailgylchu a Gorfodi i'r Pwyllgor. Cyflwynodd yr adroddiad oedd yn alinio model gwastraff ac ailgylchu'r Cyngor gyda Glasbriant Casgliadau Llywodraeth Cymru. Cafodd hwn ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Ionawr ac roedd cofrestradau ar gyfer y gwasanaeth yma'n well na'r disgwyl ar 40% a chynigwyd cadw'r ffi'r un fath ar gyfer y flwyddyn nesaf. Dywedodd bod 30% o'r rheiny oedd yn derbyn y gwasanaeth ar fudd-daliadau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Dolphin at faint y biniau ac roedd yn teimlo nad oeddynt yn ddigon mawr ac y dylai ail fin fod am ddim a chynigiodd roi hyn ymlaen fel Opsiwn 6 (£30 am y bin cyntaf, ail fin am ddim). Ychwanegodd bod awdurdodau eraill yn defnyddio biniau mwy ac awgrymodd ohirio'r defnydd o dechnoleg i gofrestru bin i eiddo hyd nes roedd ystyriaeth bellach wedi ei roi i ddarparu biniau mwy. Cyfeiriodd wedyn at e-bost roedd wedi ei anfon yn gofyn am Ostyngiadau i elusennau ond nid oedd dim byd wedi ei symud ymlaen o safbwynt hyn.

Atebodd Rheolwr y Rhaglen Gwastraff a Gwasanaethau Ategol drwy ddweud bod y bin 140 litr yn faint safonol ar draws Cymru. Treialwyd y biniau 240 litr a 140 litr yn 2003 ond bu problemau gweithredol yn ogystal â thoriadau a phroblemau gyda phwysau o safbwynt yr offer codi, a phenderfynwyd mai'r bin 140 litr oedd fwyaf addas.

Fe wnaeth Prif Swyddog Strydwedd a Chludiant gydnabod sylwadau'r Cynghorydd Dolphin y dylai ail fin fod am ddim.

Nododd y Cynghorydd Mike Peers y sylwadau am finiau mwy a chyfeiriodd at gyfarfod yr Amgylchedd ar 16 Ionawr 2018 pan ddywedodd y Prif Swyddog y byddent yn edrych ar ddarparu biniau mwy a gofynnodd beth fu canlyniad hynny.

Roedd y Cynghorydd Peers yn falch bod y Cyngor wedi talu cost adfer ar gyfer y gwasanaeth hwn o £166.000 ond awgrymodd y gellid gweld hyn fel y Cyngor yn elwa a holodd a ddylid symleiddio taliadau cyn 2020. Os taw £30,000 yw'r gost am dechnoleg pad PIN, beth am ddefnyddio'r arian dros ben o'r flwyddyn gyfredol. Yn 1.16 ystyriwyd y potensial o gynig cyfraddau is i bobl hŷn ac agored i niwed yn ystod y flwyddyn gyntaf ac ystyriwyd y byddai adolygiad yn cael ei gynnal ynlyn â'r canlyniad. Cytunodd gyda sylwadau'r Cynghorydd Dolphin nad oedd y bin yn ddigon mawr.

Dywedodd Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad bod y biniau mawr yn rhy drwm i'r peiriannau eu codi. Gallai'r gostyngiad ffi am ail fin effeithio ar y

gyllideb a allai olygu codi mwy am y bin cyntaf. O safbwynt Gostyngiadau – nododd archwiliad o bobl ar y Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor bod 30% wedi cofrestru ar y cynllun. Dyma oedd y rhesymau am beidio gostwng na chynyddu'r cyfraddau eleni. Canmolodd y tîm bach sy'n llwyddo i anfon 30,000 o sticeri allan a delio gydag ymholiadau ffôn. Dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton fod hwn yn fater dadleuol a bod y 40% o gofrestriadau yn galonogol ac y byddai Taliadau Uniongyrchol yn ei gwneud yn haws i'r tîm.

Gofynnodd y Cynghorydd Joe Johnson sut roedd taliadau yn cael eu gwneud. Cadarnhawyd bod 95% dros y ffôn gyda'r tîm yn annog taliadau ar-lein at y dyfodol.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr opsiwn gan drigolion o gompostio eu gwastraff gardd os nad oeddynt am dalu am y gwasanaeth.

Roedd y Cynghorydd Richard Jones yn cefnogi sylwadau'r Cynghorydd Dolphin bod y biniau yn rhy fach ac y dylai trigolion dderbyn biniau mwy, 240 litr. Dywedodd mai cost y gwasanaeth oedd mynd a chasglu a gwaredu'r gwastraff gardd. Dywedodd nad cynhyrchu incwm oedd menter LIG ond gostwng ôl troed carbon safleoedd HRC. Ychwanegodd bod Sir y Fflint, o'u cymharu ag awdurdodau cyfagos, yn ddrytach gan bod y biniau 240 litr gan yr awdurdodau eraill.

Awgrymodd y Cynghorydd Owen Thomas y dylai'r arian gael ei ddefnyddio i hyrwyddo biniau compost.

Dywedodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin na ddylai Sir y Fflint gywilyddio o wneud elw ond y dylid ail-fuddsoddi'r arian.

Dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) y byddai'r costau yn cynyddu y flwyddyn nesaf. Ychwanegodd y byddai'n costio £600,000 i gael 30,000 o finiau newydd am £20 yr un.

Pan gafwyd pleidlais ar Opsiwn 6 £30 cost am y bin cyntaf ac ail fin am ddim, collwyd y bleidlais.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi parhad y polisi codi ffi ar gyfer Gwasanaeth Gwastraff Gardd ar gyfer 2019 a blynyddoedd dilynol;
- (b) Bod y Pwyllgor yn argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo parhad y peirianwaith codi tâl cyfradd safonol, heb ostyngiadau ac y bydd tâl o £30 yn parhau i fod yn berthnasol am bob casgliad bin a wneir yn ystod tymor 2019;
- (c) Bod y Pwyllgor yn argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo y dylid o 2019 ymlaen, cynnwys adolygiad blynyddol o'r tâl Gwastraff Gardd yn adolygiad blynyddol y portffolio o ffioedd a chostau; a
- (d) Bod y Pwyllgor yn argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cais i'r Cabinet i'r gwasanaeth archwilio system amgen, yn seiliedig ar

dechnoleg i fonitro taliadau a rhoi gwybod i gasglwyr gwastraff o danysgrifiad a dalwyd, yn barod ar gyfer tymor 2020 a bod £30,000 o'r cyllid a godwyd ym mlwyddyn ariannol 2018-19 yn cael eu rhoi o'r neilltu i ariannu'r trefniant newydd.

39. METRO GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) Ian Bushell, Rheolwr Prosiect Metro Gogledd Ddwyrain Cymru i'r pwyllgor ond oherwydd cyfyngiadau amser cynigiwyd gohirio'r adroddiad hwn tan y Flwyddyn Newydd.

PENDERFYNWYD:

Cytunodd y Pwyllgor ohirio'r eitem hon hyd nes y cyfarfod nesaf.

40. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol ac nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.00 am a daeth i ben am 11.30 am)

.....
Cadeirydd